OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2994 (Cy.248) (C.134)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Arbedion) 2010

Gwnaed - - - - 15 Rhagfyr 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 74(2) a 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Arbedion) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Mesur" yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Y diwrnod penodedig

2. 10 Ionawr 2011 yw'r diwrnod penodedig ar gyfer dwyn i rym y darpariaethau canlynol o'r Mesur–

(a) adran 2 i'r graddau y mae'n gymwys i'r awdurdodau Cymreig;

(b) adran 4;

(c) adran 5;

(ch) adran 6;

(d) adran 17; ac

(dd) adran 18.

Darpariaeth Arbedion

3. Mae Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007(**2**) yn parhau i fod yn effeithiol er gwaethaf rhoi adran 26(1A) i 26(1D) o Ddeddf Plant 2004(**3**) yn lle adran 26(1) yn unol ag adran 4(3) o'r Mesur.

(**1**) 2010 mccc 1.
(**2**) O.S. 2007/2316 (Cy.187).
(**3**) 2004 p.31.

Huw Lewis
Y Dirprwy Weinidog dros Blant, un o
15 Rhagfyr 2010 Weinidogion Cymru